# Cefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion i nodi’r perthnasoedd sy'n bwysig iddynt ynghyd â'u cefnogi i ddatblygu a chynnal eu perthynas.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion unigolion o ran perthynas ag eraill
2. cyfrannu at nodi'r perthnasoedd sy'n bwysig i unigolion, a'u hanghenion o ran perthnasoedd nawr ac yn y dyfodol
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gyfrannu at gynllunio sut gall unigolion ddatblygu a chynnal perthynas
4. cynorthwyo unigolion ac eraill i gael gafael ar yr wybodaeth neu'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu neu gynnal perthynas
5. cyfrannu at gefnogi unigolion i feithrin perthynas ag eraill
6. cyfrannu at arsylwi rhyngweithiadau rhwng unigolion ac eraill a sicrhau cydbwysedd rhwng preifatrwydd, diogelwch ac ymyrryd
7. cefnogi unigolion ac eraill i fyfyrio ar ryngweithiadau a nodi manteision a heriau
8. cyfrannu at gefnogi unigolion os yw perthnasoedd yn cael eu cynnal neu yn gorffen
9. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i weithio gydag unigolion i ddatblygu neu gynnal perthynas
10. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth weithio gydag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rôl perthnasoedd o ran llesiant unigolion
2. sut mae helpu unigolion i gyfathrebu eu hanghenion o ran perthnasoedd nawr ac yn y dyfodol
3. sut mae cyfrannu at ddatblygu perthynas gadarnhaol
4. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all helpu unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
5. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
6. y ffactorau a allai effeithio ar berthynas
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y ffordd mae perthnasoedd yn cael eu datblygu a’u cynnal
8. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar y ffordd mae perthnasoedd yn cael eu datblygu a’u cynnal
9. yr effaith y gall perthynas ag unigolion ei chael ar eraill
10. sut mae helpu rheoleiddio emosiynol wrth ddatblygu a chynnal perthnasoedd
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma I helpu unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
12. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a’u perthnasoedd ag eraill
13. sut mae cyfrannu at arsylwi rhyngweithiadau rhwng unigolion ac eraill a sut mae sicrhau cydbwysedd rhwng preifatrwydd, diogelwch ac ymyrryd
14. sut gall pŵer gael ei ddefnyddio a’i gamddefnyddio mewn perthynas
15. sut y gall colled a newid mewn perthnasoedd effeithio ar unigolion
16. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gefnogi unigolion i gynnal perthynas
17. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
18. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
19. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
20. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
21. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio

wrth gefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas, a sut i fynd i'r afael â hyn

22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD221 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Perthynas, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |